Cofnodion cyfarfod 9fed Chwefror 2016 a chynhaliwyd yng Nghapel Bethania y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Mair Bebb Jones	
Lena Ashley	George Smith	
Casi Jones	Sarah Riley	
Aled Emyr	Yasmin Khan	
Peter Simpson		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod mis Chwefror. **Ymddiheuriadau**: Nerys John a Gruff John	
2.0	**ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR**	
	Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig - gweler atodiad 2.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Aled Emyr - Eitem 7.2 Casi Jones - Eitem 7.2	
4.0	**COFNODION**	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion 12 Ionawr 2016. **Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir a'u llofnodi**.	
5.0	**MATERION YN CODI**	
5.1	**Toiledau** - dim i'w adrodd.	
5.2	**Cysgodfan Bws -** gwaith ar y cysgodfan bws y wern wedi ei gwblhau. Mae angen hysbysu'r contractwr i symud ymlaen a gosod panel ar gysgodfan bws ger yr eglwys.	**CLERC**
5.3	**Hysbysfyrddau -** Cynghorydd Sarah Riley wedi trafod lleoliad yr hysbysfwrdd gyda pherchennog y wal a byddai yn hoffi gweld dyluniad a chael mesuriadau cyn cadarnhau cytundeb. Y Clerk i wneud cais am y wybodaeth.	**CLERC**
5.4	**TESCO** - yn absenoldeb Nerys John roddwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd. Bydd y bleidlais yn cychwyn diwedd y mis.	
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD**	
6.1	Archwiliad y tamprwydd i'w gynnal un ai dydd Mercher neu Ddydd Iau wythnos hon gan Kimberley Gulf.	
7.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL**	
7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Ionawr 2016 a'r adroddiad ariannol. Roedd aelodaeth SLCC yn ddyledus. Penderfynwyd parhau ar aelodaeth.	
7.2	Ceisiadau am gymorth ariannol 2016 - 2017. Trafodwyd y ceisiadau i law. Gweler atodiad 2 am y dyraniadau.	
7.3	Tendr torri gwair - agorwyd y tendrau yn y	

	cyfarfod. Un oddi wrth Gerddi Borris am £120 y mis ar llall oddi wrth Keith Morgan Cae Corniog am £280 y mis. Penderfynwyd cynnig y contract i Gerddi Borris.	
8.0	**GOHEBIAETH**	
8.1	Resource Efficient Wales - Gwybodaeth yn unig	
8.2	Arolwg Gwynedd Survey - Y Cadeirydd wedi cwblhau'r holiadur ar lein.	
9.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
9.1	Dim i'w adrodd	
10.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
10.1	C16/0059/20/LL - cais lawn i godi tŷ annedd gyda balconïau a chreu mynedfa gerbydol newydd - Plot 2, Old Garage Site, Ffordd Caernarfon, Y Felinheli. - **DIM GWRTHWYNEBIAD OND Y CLERC I WNEUD YMHOLIADAU YNGLŶN Â'R MYNEDIAD CERBYDOL I'R LON LAS SYDD WEDI EI FANYLU AR Y CAIS**.	**CLERC**
10.2	C16/0048/20/LL - gosod balconïau i flaen yr adeilad ynghyd a man ddigwyddiadau i'r estyniadau ac addasiadau a ganiatawyd dan ganiatâd C15/0760/20/LL - Laurance House, Stad Tafarngrisiau, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4SQ.- **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
11.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**	
	Dim i'w adrodd	
12.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
	Dim i'w adrodd	
13.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEICIAU**	
13.1	Diolchwyd i George Smith am waith cynnal i'r ffens ar lwybr Cerrig yr Afon. Mae mater y goeden yn derbyn sylw gan Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd.	
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
14.1	Mae angen trafod cwlfert Gwylan Uchaf gydag Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd.	**CLERC**
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 9 yn yr hwyr	
Llofnod:	Dyddiad:	

Atodiad 1

Adroddiad Cynghorydd Sian Gwenllian – Chwefror 2016

1)Sbwriel sy'n cael ei adael ar ôl casgliadau ailgylchu – mae hyn yn cael ei drafod yn y Cyngor. Mae llawer o gynghorwyr yn cwyno am yr un mater ac yn pwyso am gael gwell sustem.

2)Parcio ger y siop- mae pobl yn parcio dros nos yn y man llwytho/dadlwytho nwyddau i'r siop (un bae) gan achosi tagfeydd traffig yn y bore gan nad oes lle i loriau dynnu mewn. Rwyf wedi gofyn i Gyngor Gwynedd symud yr arwydd a phaentio'r bae er mwyn gwneud y bae yn fwy clir.

3)Mae loriau yn defnyddio'r ffordd o Nant y garth i Gelli Gyffwrdd gan fynd yn sownd o dro i dro a malurio'r ffordd a'r cloddiau. Rwyf wedi gofyn i Gyngor Gwynedd edrych mewn i'r sefyllfa.

4) Safle Fflatiau ANWYL : cwynion am Sbwriel ger Half Way & parcio faniau ar y pafin – bum mewn cysylltiad a chwmni Anwyl ac fe gliriwyd y sbwriel ac fe drefnwyd i faniau gael eu parcio yn maes parcio'r Half Way.

5)Llwybr Rowen – Mae'r gwaith o wneud gwelliannau sylweddol i'r llwybr sy'n arwain at draeth Rowen yn y cae o dan y Feddygfa yn mynd yn ei flaen. Rwyf wedi bod yn ymgyrchu am hyn ers tro ag yn falch iawn o weld hyn! Cwmni Peirianneg Gelli sydd yn gwneud y gwaith ar ôl i Gyngor Gwynedd ddenu grant gan Cyfoeth Naturiol Gwynedd. Cyn hir fe fydd gennym lwybr troed braf a diogel lawr i'r traeth. Y cam nesaf yw cofrestru'r llwybr fel 'llwybr cyhoeddus' swyddogol. Mae'r llwybr ar gau tra fo'r gwaith ym mynd mlaen.
6)Llwybr Stepiau Cei – mae'r Cyngor bellach wedi sicrhau cytundeb y cwmni sy'n cynrychioli trigolion Hen Gei Llechi sydd yn berchen ar y tir o flaen y wal ac mae modd i'r gwaith o adeiladu bwtres i ddiogelu'r wal gychwyn yn fuan. Bydd hi wedyn yn bosib ail-agor y llwybr.
7)Gwelliannau Cae Chware Lan y Mor – mae'r Cyngor Cymuned yn gobeithio denu grantiau er mwyn cael mwy o offer ag i harddu'r cae chwarae. Llongyfarchiadau i'r criw sydd wrth y gwaith am eu dycnwch.
8)Casglu Sbwriel – Diolch i bawb ddaeth i helpu. Datganiad yma - https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Newyddion/Datganiadau-ir-wasg/Ionawr-2016/GwirfoddolwyrTrefiTaclusynglanhaurFelinheli.aspx
9)Ymddygiad gwrth-gymdeithasol - efallai fod rhai ohonoch wedi sylwi fod fandaliaeth yn broblem mewn rhannau o'r pentref. Rwyf wedi trafod efo'r asiantaethau priodol ag mae camau yn cael eu cymryd fydd, gobeithio, yn arwain at wella'r sefyllfa.
10)Pryder Coed Fodol - mae rhai yn bryderus o weld coed yn cael eu torri a gwaith yn mynd mlaen yn Cae Fodol ger cylch-dro Faenol. Rwyf wedi tynnu sylw Uned Gorfodaeth Cyngor Gwynedd at hyn gan nad oes caniatâd cynllunio. Mae'r cynghorydd lleol, Cyng John Wyn Williams yn ymwybodol o'r broblem hefyd.
11)Ffoaduriaid Syria – mae gwaith gwych yn cael ei wneud yn lleol a chefais y fraint o helpu criw oedd yn sortio dillad ar gyfer Syria yn Dr Zigs, ar Stad Y Faenol. Bellach mae'r eitemau ar eu ffordd i wersylloedd ar ffin Syria.

12) Gwaith ar y ffordd osgoi – O Chwefror 9fed ymlaen, fe fydd Cyngor Gwynedd, ar ran Llywodraeth Cymru, yn ail wynebu'r darn canol o ffordd osgoi Y Felinheli. Fe fydd y gwaith yn digwydd rhwng 20:00 yr hwyr a 06:00 y bore - hynny yw dros nos. Gan fod y gwaith angenrheidiol yma yn digwydd dros nos, bydd pentref Y Felinheli yn osgoi'r tagfeydd fyddai'n digwydd petai'r ffordd osgoi ar gau yn yr oriau brig. Os ydych yn rhagweld y byddwch yn cael eich heffeithio gan y gwaith cysylltwch a mi

neu'r Adran Priffyrdd yn syth. Mi fydd trafnidiaeth yn teithio tuag at Fangor yn cael defnyddio'r ffordd osgoi, ac mi fydd trafnidiaeth yn teithio tuag at Gaernarfon yn cael ei gyfeirio drwy ffyrdd eraill yn ystod y nos. Mwy o wybodaeth : Barry Naylor Williams 01286 679760

13)Tyllau lon Llwyn – mae'r tyllau mwyaf wedi eu llenwi. Mae'r ffordd yn parhau ar restr y Cyngor o'r ffyrdd sydd angen eu hail-wynebu.

14)Cerrig yr Afon : Diolch yn fawr iawn i aelodau o'r Cyngor Cymuned am drwshio'r ffens yn Cerrig yr Afon.

15)Llifogydd – mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cwblhau'r gwaith o dynnu gweddillion wal y Faenol o'r Afon Heulyn – rhwng Glanrafon a Bwthyn y Cei. Mae hyn wedi adfer sianel yr afon, ac yn y tymor byr wedi leihau'r risg o lifogydd yn yr ardal. Bydd angen canfod ateb tymor hir.

16)Toriadau Cyngor Gwynedd – Mae'r gwaith tor-calonnus o flaenoriaethu pa doriadau sydd angen eu gwneud er mwyn gosod cyllideb gyda £5 miliwn yn brin yn 2016/7 a 2017/8 yn parhau. Y cabinet fydd yn argymell i'r Cyngor llawn pa doriadau i'w gwneud ac ar ba lefel y dylid gosod y dreth cyngor. https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Newyddion/Datganiadau-ir-wasg/Chwefror-2016/AdroddiadstrategaethariannolCabinetGwynedd.aspx

17) Cymorthfeydd – rwyf yn parhau i fod ar gael yn Felin Sgwrsio y rhan fwyaf o foreau Gwener (oni bai am y gwyliau ysgol) tan ddechrau Ebrill (10.30 – 11.30) Yn ystod Ebrill byddaf yn canolbwyntio ar fy ymgyrch i gael fy ethol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar Mai 5ed. Byddaf ar gael ar y ffon drwy'r cyfnod yma wrth gwrs – 07775642202 – ac yn parhau i weithio ar ran y pentref. Os byddaf yn ennill ar Mai 5 (a does dim sicrwydd o hynny wrth gwrs) bydd cyfle i bobol Y Felinheli ethol cynghorydd sir newydd maes o law.

18) Llwybr yr arfordir – Bydd y mater ger bron Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ar Mawrth 14.

CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL
APPLICATIONS FOR FINANCIAL ASSISTANCE

20.01.15

CYMDEITHAS/ORGANISATION	MANTOLEN / STATEMENT	2013/14	2014/15	PENDERFYNIAD /DECISION
Y Goriad		200	200	Caniatau
Clwb Peldroed		500	400	Caniatau
1st Felinheli Rainbows £50		50	50	Caniatau
3rd Portdinorwic Guides £100		100	75	Caniatau
Cylch Meithrin £245		150	250	Caniatau
CyfeillionYsgol Y Felinheli		200		Dim cais elenni
Cylch Ti a Fi £120			100	Caniatau
Ras Hwylio £200		150	100	Caniatau
Clwb y Felin (Henoed)		150	100	Caniatau
Brownies		100	75	Caniatau
Clwb Peldroed Ieuenctid		350	350	Caniatau
Cefnogi		500		Dim cais elenni
Felin Sgwrsio £262.16		262		Dim cais elenni
Gwyl y Felin £1000		1000	800	Caniatau

CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL
APPLICATIONS FOR FINANCIAL ASSISTANCE

09.02.2016

CYMDEITHAS/ORGANISATION	MANTOLEN / STATEMENT	Cais	Caniatau	
Y Goriad				Dim Cais
Clwb Peldroed			300	Cwblhau ac addasu ystafell newid reffari
Felinheli Brownies a Rainbows		100	100	Craft and games materials
3rd Portdinorwic Guides		100	100	Purchase of new tents
Cylch Meithrin		250	250	Prynu “iPad Air sydd ar 'Wish List'y Cylch
CyfeillionYsgol Y Felinheli		500	250	Adnoddau TGCch newydd gan gynnwys Gliniaduron ac ipads ar gyfer y disgyblion
Cylch Ti a Fi		100	100	Offer crefft, Cdau o ganeuon Cymraeg. Llyfrau stori. Bocsys I storio teganau
Ras Hwylio		100	100	
Clwb y Felin (Henoed)			100	Talu siaradwyr Gwadd
Clwb Peldroed Ieuenctid		300	300	Prynnu gols newydd
Gwyl y Felin		1000	800	Golau Nadolig. Gwyl y Felin Noson Garolau